Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol)

Ionawr 2020

## Cyflwyniad

**1.** Ar 14 Ionawr 2020, gosododd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd.

**2.** Ar yr un diwrnod, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor hwn, ac at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, i'w ystyried, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 21 Ionawr 2020.

**3.** Trafododd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (y Pwyllgor) y Memorandwm yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2020.

**4.** Mae Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ceisio cydsyniad y Cynulliad i ddarpariaethau'r Bil wedi'i drefnu i'w drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Ionawr 2020.

## Y cefndir

**5.** O dan delerau'r Cytundeb Ymadael ni fydd deddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE yn berthnasol yn y DU ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Daw'r Cytundeb Ymadael i rym ar ôl i'r DU ymadael â'r UE ar 31 Ionawr. Bydd angen

deddfwriaeth cyn hynny er mwyn i wledydd y DU barhau i wneud taliadau uniongyrchol i ffermwyr yn 2020.

## Trosolwg o'r Bil

**6.** Cafodd y Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) (y Bil) ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Ionawr 2020.

**7.** Bydd y Bil yn darparu'r sail gyfreithiol i barhau i dalu taliadau uniongyrchol i ffermwyr drwy sicrhau bod y cynllun taliadau uniongyrchol yn parhau ym mhob rhan o'r DU ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Mae'r Bil hefyd:

- yn cynnwys pwerau i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wneud rheoliadau pellach i addasu cyfraith a ddargedwir yr UE, naill ai i wneud cywiriadau fel ei bod yn gweithio yng nghyfraith y DU neu i efelychu datblygiadau yng nghyfraith yr UE yn ystod 2020. Daw'r pwerau hyn i ben ar ôl 31 Rhagfyr 2020. Bydd angen cydsyniad y Cynulliad ar reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU sy'n berthnasol i Gymru;
- yn galluogi Llywodraeth y DU i gynyddu cyfanswm y symiau/nenfydau ariannol ar gyfer taliadau uniongyrchol, i ddarparu cyfran fwy o gymorth i ffermydd yng Nghymru, fel yr argymhellir gan Adolygiad Bew; ac
- yn cymhwyso eithriad cymorth gwladwriaethol yr UE i daliadau uniongyrchol 2020 y DU, os ydynt yn gyfwerth â chynllun yr UE.

## Darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

**8.** Gofynnir am gydsyniad ar gyfer holl ddarpariaethau'r Bil (Cymalau 1 i 9, ac Atodlenni 1 a 2) gan eu bod i gyd yn dod o fewn, neu'n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

**9.** Mae eglurhad manwl o ddarpariaethau'r Bil ar gael ym mharagraffau 8 i 81 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

## Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil y DU

**10.** Wrth nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros ddefnyddio'r Bil i ddeddfu mewn perthynas â Chymru, dywed y Memorandwm fel a ganlyn:

> "Bydd cymryd pwerau o dan Fil y DU yn ateb ymarferol a phragmatig i'r ffaith nad oes gennym y pwerau cyfreithiol sydd eu hangen er mwyn parhau i wneud taliadau uniongyrchol i ffermwyr ym mlwyddyn 2020 y cynllun.
> Drwy weithredu ar lefel y DU gyfan yn hyn o beth, rydym yn rhagweld y gallem ailgymhwyso, a gwneud yn weithredadwy, lawer o'r drafftio y cytunwyd arno eisoes ar gyfer Diwrnod 1 y ddeddfwriaeth unioni ar gyfer y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol ar gyfer blwyddyn y cynllun 2020. O'r herwydd, byddai'r broses yn fwy llyfn, yn gynt ac yn fwy clir i ffermwyr a rhanddeiliaid eraill."

**11.** Mae hefyd yn nodi:

> "O ystyried bod angen ymdrin ar fyrder â'r ffaith nad oes gennym y pwerau cyfreithiol sydd eu hangen er mwyn parhau i wneud taliadau uniongyrchol i ffermwyr ym mlwyddyn 2020 y cynllun, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan Lywodraeth y DU."

## Ein barn ni

**12.** O ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar gael inni ystyried ac adrodd ar y Memorandwm, ni fu'n bosibl edrych yn fanwl ar y cynigion.

**13.** Mae'r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb brwd yn nyfodol cefnogaeth amaethyddol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE. Yn ein hadroddiadau ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU (a gyflwynwyd yn y sesiwn Seneddol flaenorol), gwnaethom bwysleisio'r angen i sicrhau parhad taliadau uniongyrchol i ffermwyr Cymru yn y cyfnod uniongyrchol ar ôl Brexit. Mae'r Bil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) yn sefydlu'r mecanweithiau deddfwriaethol angenrheidiol i ddarparu ar gyfer hyn.

**14.** Gyda therfyn amser Brexit ychydig ddyddiau i ffwrdd, rydym yn fodlon bod cynnwys darpariaethau yn y Bil yn angenrheidiol ac yn ateb pragmatig.

**15.** Mae'r Pwyllgor yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil. Ni chanfu unrhyw reswm i wrthwynebu'r Cynulliad yn cytuno ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm.